# Pennaeth Addysg
# Head of Education
Dewi R. Jones

Gofynnwch am/Ask for: **Dewi R Jones**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **DRJ/AAS**
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
dewirjones@gwynedd.gov.uk


17 Chwefror 2014

## At benaethiaid a chadeiryddion cyrff llywodraethu ysgolion Gwynedd

Annwyl Bennaeth a Chadeirydd Y Llywodraethwyr

***Adolygiad Cynllun Cyfarwyddo Balansau Ysgolion***

Byddwch eisoes yn ymwybodol o'r hawl a ddirprwyir i mi i gyfarwyddo Cyrff Llywodraethu sut i wario elfen o'u balansau. Byddai peidio â gweithredu yn unol â'r cyfarwyddyd yn golygu talu arian yn ôl i'r Gwasanaeth Addysg yn ganolog.

Mae'r cynllun presennol yn fy ngalluogi i ystyried gweithredu'r hawl i gyfarwyddo mewn sefyllfaoedd ble mae balansau cynradd dros £50,000 a hefyd dros 8%, ac yn y sector uwchradd ac arbennig bod balansau dros £100,000 a hefyd dros 8%. Nodaf fod y ddeddfwriaeth ar y mater yn cyfeirio at y trothwy ariannol penodol o £50,000/£100,000 yn unig h.y. nid oes unrhyw gyfeiriad at **ganran** trothwy felly mae ein cynllun presennol yn llawer mwy llac na'r ddeddfwriaeth.

Mae lefel uchel o falansau ysgolion ar lefel Genedlaethol ac yng Ngwynedd yn parhau i dderbyn sylw ar sawl lefel gan gynnwys y Gweinidog Addysg, rhieni/cyhoedd, aelodau etholedig Cyngor Gwynedd ayb.

Yn ystod cyfarfod 19 Tachwedd 2013 penderfynodd y Fforwm yn unfrydol i ymgynghori ar adolygu'r cynllun presennol fel y ganlyn :

- **Pennaeth Addysg i ystyried gweithredu'r hawl i gyfarwyddo ysgolion sut i wario elfen o'u balansau mewn sefyllfaoedd ble mae balansau dros 5% neu £50,000 (Cynradd) / £100,000 (Uwchradd ac Arbennig) pa un bynnag yw'r lleiaf.**

Os am sefydlu'r cynllun diwygiedig uchod bydd angen i bob ysgol ei gymeradwyo gan ddychwelyd **Atodiad A** atom erbyn diwedd y dydd, 23 Mai 2014, os gwelwch yn dda.

Nodaf fod yr Aelod Cabinet dros Addysg a minnau yn cefnogi'r cynllun diwygiedig.

Byddaf yn cyflwyno sylwadau llawn i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion yn eu cyfarfod ym mis Mehefin 2014.

Er gwybodaeth dyma gysylltiad i adroddiadau'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar y wê
http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_doc.asp?cat=8068&doc=29857&Language=2&p=1&c=1

Yn gywir

***Dewi R Jones***

**Dewi R Jones**
**Pennaeth Addysg**

**Copi:** Hefin Owen, Rheolwr Cyllid - Grŵp Datblygu
Tîm Rheoli'r Adran Addysg